



Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

**Gwasanaeth Cyfraith Deulu
Gyhoeddus**
Gwasanaeth Llysoedd a
Thribiwnlysoedd EF
y 30^{ain} o Dachwedd 2023

Annwyl Ddefnyddiwr y Gwasanaeth Cyfraith Deulu Gyhoeddus

Gweld Ffeil yr Achos a Rheoli Dogfennau

Ar **14 Rhagfyr 2023** byddwn yn lansio'r nodwedd gweld ffeil yr achos yn y Gwasanaeth Cyfraith Deulu Gyhoeddus.

Mae'r nodwedd gweld ffeil yr achos yn efelychu gosodiad bwndeli llys a strwythurau ffeilio electronig blaenorol i wneud y gwasanaeth yn haws i'w ddefnyddio. Rydym wedi gweithio gyda'r farnwriaeth i gytuno ar drefn enwi syml y mae'n rhaid ei dilyn er mwyn sicrhau bod dogfennau yn haws i'w hadnabod:

Math o Ddogfen _ Enw'r unigolyn perthnasol _ Rôl yr unigolyn perthnasol
E.e. Datganiad Tyst _ Jane Smith _ Atebydd 2

Rydym yn gwneud y newidiadau hyn yn dilyn eich adborth yn gofyn i ni ei wneud yn gyflymach ac yn haws i lwytho, dod o hyd i, a gweld dogfennau. Bydd y nodwedd gweld ffeil yr achos yn arbed amser i chi, gan na fydd rhaid i chi chwilio am ddogfennau mewn sawl lle ac bydd yn datrys y broblem o methu llwytho dogfen pan nad oes dyddiad ar gyfer gwrandawriad.

Mae manteision eraill y nodwedd gweld ffeil yr achos yn cynnwys:

- strwythur ffeil/ffolder clir, gan ei wneud yn haws i ddod o hyd i ddogfennau
- y gallu i weld cipolwg o ddogfennau yn gyflym ar MyHMCTS heb yr angen i'w hagar mewn tab newydd
- gallu chwilio yn ôl enw'r ddogfen
- proses newydd, syml ar gyfer llwytho dogfennau, yn seiliedig ar adborth gan awdurdodau lleol a chyfreithwyr
- y gallu i ddileu dogfennau a gafodd eu llwytho ar ôl rhyddhau

Ochr y ochr â Gweld Ffeil yr Achos, rydym wedi ailddylunio'r tab 'Rheoli Dogfennau' a ddefnyddir i lwytho dogfennau, a fydd yn diweddarau'r tabiau canlynol:-

- Dogfennau
- Dogfennau'r Gwrandawriad
- Gohebiaeth

Gan ein bod yn rhyddhau nodweddion Gweld Ffeil yr Achos a Rheoli Dogfennau gyda'i gilydd, unwaith y bydd y dyluniad newydd hwn wedi'i gyflwyno, pan fydd dogfennau yn cael eu llwytho trwy ddefnyddio'r nodwedd hon, dim ond y ffolder Gweld Ffeil yr Achos priodol fydd yn cael ei diweddarau ac nid y tabiau sydd eisoes yn bodoli. Felly, pan fyddwn yn rhyddhau'r uchod, ni fydd tabiau yn weledol mwyach a bydd rhaid eu cyrchu trwy'r nodwedd Gweld Ffeil yr Achos.

[SECURITY CLASSIFICATION]

Cyfarwyddyd

Ceir canllawiau ar lwytho dogfennau wrth [wneud cais](#) ac [ymateb](#) i geisiadau cyfraith gyhoeddus ar GOV.UK

Yn gywir,

Tîm y Gwasanaeth Cyfraith Deulu Gyhoeddus

Tîm y Gwasanaeth Cyfraith Deulu Gyhoeddus
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
FamilyPublicLawServiceTeam@justice.gov.uk

[SECURITY CLASSIFICATION]